CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

593/01

**CYMRAEG AIL IAITH *(WELSH SECOND LANGUAGE)***

**CA3**

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

A.M. DYDD MERCHER, 11 Ionawr 2006
*A.M. WEDNESDAY, 11 January 2006*

(2 Awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ychwanegol at y papur arholiad hwn bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Pan fydd gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol.

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch gwaith yn drefnus.

Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this examination paper you will need an 8 page answer book.*

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*

*When you are asked to express an opinion or viewpoint you should give your reasons for them.*

*Quotations and literary criticism terms should be used.*

*You are reminded that you should write good, correct Welsh and present your work neatly.*

*You should spend **1 HOUR** on each section.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

*No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) crynu yn ei sgidiau

(ii) dal ati

(iii) wrth ei fodd

(iv) dro ar ôl tro

(v) o'r golwg

(vi) o ddrwg i waeth

(vii) glan

(viii) glân

(ix) hun

(x) hyn

**2.** Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi'u tanlinellu. [20]

*(a)* Tair blwyddyn yn ôl teithiais mewn awyren am y tro cyntaf.

*(b)* Roeddwn i ddim yn gwybod yr ateb.

*(c)* Mae e'n gwrando i'r rhaglen bob nos.

*(ch)* Ydych chi'n cofio bod mae'r ymarfer yn dechrau heno?

*(d)* Dylid y disgyblion adolygu ar gyfer y prawf.

*(dd)* Pan gwelais i'r tywydd gwlyb roeddwn i'n siomedig.

*(e)* Canodd nhw'r gân yn yr eisteddfod.

*(f)* Pwy lyfr ydych chi'n ddarllen nawr?

*(ff)* Dyma'r disgyblion pwy sy'n newydd i'r ysgol.

*(g)* Clywais am hi gan fy ffrind.

**3.** Darllenwch yr addasiad canlynol o gyfweliad rhwng Hywel ac Aled Jones, y canwr, a chwblhewch y dasg isod. [20]



| | |
|---|---|
| Hywel: | Dywedwch ychydig am eich cefndir. |
| Aled J: | Ces i ngeni yn Llandegfan, Ynys Môn, yn 1970. |
| Hywel: | Pryd dechreuoch chi ganu? |
| Aled J: | Dechreuais i ganu'n broffesiynol pan oeddwn i'n 12 oed gyda chôr Cadeirlan Bangor. |
| Hywel: | I ble aethoch chi i'r coleg? |
| Aled J: | Es i golegau'r Academi Frenhinol yn Llundain ac yna i'r *Old Vic* ym Mryste. |
| Hywel: | Faint o recordiau ydych chi wedi eu gwerthu? |
| Aled J: | Rydw i wedi gwerthu miloedd o recordiau ac wedi ysgrifennu fy hunangofiant. |
| Hywel: | Rydych chi'n cyflwyno rhaglenni hefyd. |
| Aled J: | Ces i gyfle i gyflwyno *Songs of Praise* yn gyntaf ym Mangor a chyn hynny ymddangosais i ar y rhaglen Gymraeg *Heno*. |
| Hywel: | Cawsoch chi anrhydedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol eleni. |
| Aled J: | Derbyniais i'r wisg werdd, anrhydedd fawr iawn. |
| Hywel: | Yn ogystal â chanu, beth ydy'ch diddordebau? |
| Aled J: | Bydda i yn fy amser hamdden wrth fy modd yn gwylio pêl-droed a rygbi. |
| Hywel: | Beth am y dyfodol? |
| Aled J: | Mwynheais i gymryd rhan yn y rhaglen *Strictly Come Dancing* ac yn bendant hoffwn i wneud sioe gerdd rywbryd yn y dyfodol. |

Gan ddefnyddio'r **holl** wybodaeth am Aled Jones yn y cyfweliad, ysgrifennwch erthygl ffurfiol ar gyfer cylchgrawn Cymraeg yn sôn amdano.

Dechreuwch fel hyn:

'Cafodd Aled Jones ei eni yn Llandegfan, Ynys Môn, yn 1970 ...'

(Bydd yn rhaid newid **10 berf** wrth ysgrifennu'r erthygl.)



**Trosodd.**

## ADRAN B

### Barddoniaeth

*(Gwobrwyir dyfynnu pwrpasol wrth ateb y cwestiwn hwn.)*

*(a)* Hanes merch naw oed yn cael ei lladd gan filwr sydd yn y gerdd *Er cof am Kelly* gan Menna Elfyn. **Yn eich geiriau eich hun**, disgrifiwch yn fanwl gynnwys y gerdd. [20]

*(b)* Pa dechnegau y mae'r bardd yn eu defnyddio wrth gyflwyno'r hanes. Beth ydy pwrpas ac effaith defnyddio'r technegau hyn? [20]

*(c)* Rhowch eich **ymateb personol** i'r gerdd hon a'i phwnc. [20]